

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

MEWN PERTHYNAS Â

FFOTOGRAFFAU A RECORDIO

FIDEOS MEWN YSGOLION

Cynhyrchwyd gan

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Atodlen fersiwn

<u>DYDDIAD CYFLWYNO</u>	<u>FERSIWN</u>	<u>NEWIDIADAU</u>	<u>CYMERADWYWYD</u>
01/09/2022	1	Creu'r Hysbysiad	

CYNNWYS

TUDALEN

1	Gwybodaeth Bwysig	3
2	Pwy ydym ni	3
3	Pa wybodaeth bersonol a ddefnyddir	3
4	Gwybodaeth bersonol pwy a ddefnyddir	4
5	Sail Gyfreithiol dros brosesu	5
6	Rhannu eich data personol	5
7	Pa mor hir byddwn yn cadw eich data personol	6
8	Sut rydym yn diogelu eich data personol	6
9	Eich hawliau cyfreithiol	7
10	Manylion pellach	7

1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i chi sut mae data amdanoch chi yn cael ei defnyddio gan ein hysgol. Yn benodol, sut rydym yn defnyddio eich data wrth dynnu lluniau a recordio, er mwyn cofnodi, hyrwyddo a dathlu'r Ysgol mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

[Cliciwch](#) yma i weld rhestr gyflawn o'r ysgolion a gynhwysir yn yr hysbysiad hwn.

Mae'r hysbysiad wedi cael ei chreu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar ran yr ysgolion. Nid yw'r hysbysiad yn rhan o gontract i ddarparu gwasanaethau. Mae'n bosib y byddwn yn diweddarau'r hysbysiad ar unrhyw adeg. Os byddwn yn gwneud, byddwn yn sicrhau bod copi wedi ei ddiweddarau o'r hysbysiad ar gael i chi cyn gynted â'i bod yn rhesymol gwneud.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn yn ogystal â'n polisi diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am ein cyfrifoldebau cyfreithiol.

2. PWY YDYM NI

Mae'r Ysgol yn gyfrifol am benderfynu sut ydym yn defnyddio'r data personol rydym yn ei gasglu. Mae hyn yn golygu taw ni yw'r rheolwr data. Dan ddeddfwriaeth diogelu data rhaid i ni ddweud wrthoch chi sut ydym yn defnyddio eich data personol a dyna pam mae'r hysbysiad hwn wedi cael ei greu.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn darparu cefnogaeth diogelu data i ysgolion dan gytundeb lefel gwasanaeth, mae hyn yn cynnwys apwyntio Swyddog Diogelu Data.

Gellir cysylltu gyda'r Swyddog Diogelu Data am bryderon am ddiogelu data trwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Ganolfan ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Rhif Ffôn: 01685 725000

Gofynnwn yn garedig i chi gysylltu gyda'r Ysgol yn y lle cyntaf, ond os nad yw hyn yn bosib, sicrhewch eich bod yn copïo cynnwys yr ohebiaeth gyda'r ysgol gan mai ni yw'r rheolwr data.

3. PA WYBODAETH BERSONOL A DDEFNYDDIR

Mae'r Ysgol yn ymfalchïo yng nghyflawniad ein disgyblion, ac rydym yn mwynhau cofnodi'r atgofion pwysig hyn a'u dathlu o amgylch yr Ysgol. Rydym wrth ein bodd i roi gwybod i rieni, gofalwyr a theuluoedd am gyflawniad y plant yn yr Ysgol, yn allgyrsiol a thu allan i'r ysgol.

Er mwyn dathlu llwyddiant ein disgyblion, mae'n bosib y byddwn yn prosesu'r mathau canlynol o ddata personol er mwyn cofnodi, hyrwyddo digwyddiadau Ysgol a gweithgareddau eraill:

- Ffotograffau a recordio fideo
- Recordio Llais
- Gwybodaeth bersonol sylfaenol megis enw, dosbarth, blwyddyn ayyb.
- Manylion penodol i lwyddiant, digwyddiad neu weithgaredd megis seremoni gwobrwyo (disgybl yr wythnos), neu fanylion y llwyddiant y mae wedi ennill gwobr (gwaith gwych yn y dosbarth)

Am fwy o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'r data hwn gweler adran 4 isod.

4. GWYBODAETH BERSONOL PWY A DDEFNYDDIR A SUT

Rydym yn casglu'r data personol a nodir yn adran 3 yn uniongyrchol oddi wrth yr unigolion sydd wedi mynychu'r digwyddiad neu weithgaredd. Gallwn hefyd dderbyn data personol gan drefnydd y digwyddiad neu ddarparwr y gwasanaeth, megis ffotograffydd neu fideograffydd. Mae hefyd bosib bod achosion ble mae'r Ysgol yn cael gwylbod am lwyddiant disgybl gan rieni, warcheidwad neu ofalwr ayyb.

i ddathlu digwyddiadau'r Ysgol a llwyddiant ein disgyblion mae'n bosib y byddwn yn defnyddio data personol am, ond nid yn unig:

- Disgyblion
- Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid ayyb.
- Staff yr Ysgol
- Llywodraethwyr
- Ymwelwyr
- Gwirfoddolwyr
- Mynychwyr
- Hwylusydd/ darparwr gweithgaredd/ digwyddiad

Os oes peron allanol sydd ddim yn dymuno cael ei gynnwys wrth ddogfennu'r gweithgareddau hyn, bydd angen iddynt roi gwybod i'r ysgol cyn mynychu.

Byddwn ond yn cadw'r data personol a nodir yn adran 3 am y rhesymau canlynol:

- i hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol
- i gadw cofnod o ddigwyddiad neu weithgaredd o fewn yr ysgol, megis tystiolaeth o ddisgyblion yn cyflawni tasg addysgol
- i ddathlu llwyddiant a chyflawniad ein disgyblion, staff, dosbarth penodol, neu grŵp o ddisgyblion a gymrodd ran mewn digwyddiad neu weithgaredd
- i gyfathrebu gyda rhieni, disgyblion, gofalwyr, gwarcheidwaid ayyb.

i hyrwyddo digwyddiadau'r Ysgol a dathlu llwyddiant ein disgyblion gallwn ddefnyddio:

- Arddangosfeydd yn yr Ysgol a all gynnwys digwyddiadau penodol i ddathlu gwaith disgyblion a llwyddiannau, fel arall gallwn ddefnyddio hysbysfyrddau yn yr.
- Prosbectws neu gyhoeddiadau eraill
- Gallwn bostio llwyddiant ein disgyblion ar gyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter, YouTube ayyb.
- Rydym hefyd yn postio llwyddiant disgyblion a staff ar wefan yr ysgol
- Mae'n bosib y byddwn yn cyflwyno diweddariad penodol am ddigwyddiadau dyddiol y mae'r ysgol wedi cymryd rhan ynddynt, gan ddefnyddio ein dull cyfathrebu gyda rhieni
- Cylchlythyr yr ysgol
- Yn y wasg er enghraifft papurau lleol yn cynnwys the Merthyr Express, Wales Online
- Fideos neu ffilmiau wedi eu cadw ar CD neu ddyfais electronig arall sydd ar gael i rieni, gofalwyr, gwarcheidwaid ayyb.

5. SAIL GYFREITHIOL DROS BROSESU

Fyddwn ni ond yn defnyddio eich data personol os oes rheswm penodol dan ddeddfau diogelu data. Mae hyn yn cynnwys y rhesymau a osodir yn y [Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol](#) a ble'n berthnasol [Deddf Diogelu Data 2018](#). Byddwn yn defnyddio eich data yn yr amgylchiadau canlynol:

Erthygl 6(1)(e) sy'n delio gyda thasg gyhoeddus, sy'n cyfeirio'n benodol at ddefnydd yr ysgol o ddata personol disgyblion wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol.

Erthygl 6(1)(f) sy'n delio gyda'n diddordeb cyfreithlon cyhyd bod eich diddordeb a hawliau sylfaenol ddim yn diystyru'r diddordebau hyn. Mae hyn yn cyfeirio'n benodol i ddefnyddio data personol yn ein deunyddiau hyrwyddo a hysbysu am llwyddiant disgyblion.

Os nad yw rhieni yn dymuno i'w plentyn gael ei gynnwys yn ein deunyddiau hyrwyddo neu maent yn dymuno iddynt gael ei heithrio o bost cyfryngau cymdeithasol, gallwch ddewis eu heithrio o'r gweithgaredd. Bydd gofyn i chi roi gwybod i'r ysgol ar unwaith os ydych am i'ch plentyn gael ei eithrio o'r gweithgaredd.

6. RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosib y gallwn rannu eich data personol, sy'n cynnwys ffotograffau a recordiad fideo i hyrwyddo a dathlu digwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol gyda:

- Yr Awdurdod Lleol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Darparwr y digwyddiad neu'r gweithgaredd, a all gynnwys:
 - Darparwyr chwaraeon
 - elusennau
 - awduron
 - cwmnïau drama

- awdurdodau cyhoeddus eraill fel yr heddlu neu'r gwasanaeth tan
- sefydliadau eraill.

Bydd yr Ysgol yn hysbysu rhieni os ydym yn cynnal digwyddiad sy'n cael ei arwain gan sefydliadau allanol.

- Ysgolion eraill yn y fwrdeistref
- Y wasg megis y Merthyr Express

Mae'n bosib y bydd gofyn i ni rannu ffotograffau neu recordiadau gyda'r Heddlu er mwyn eu cynorthwyo gydag ymchwiliad os byddai mater yn codi yn ystod digwyddiad neu weithgaredd.

Mae'n bosib y bydd achlysur ble bydd gofyn i ni rannu data personol gyda Llywodraeth Cymru neu Estyn yn ystod arolwg.

Mae'n bosib y byddwn yn comisiynu sefydliadau allanol i brosesu data ar ein rhan. Rhain yw proseswyr data'r ysgol ac maent yn ein helpu i ddal data personol a ddefnyddir gan wasanaethau a nodir yn yr hysbysiad hwn. Maent yn cynnwys:

- Darparwyr TG, darparwyr gwefan yr ysgol
- Ffotograffwyr yr ysgol sy'n ddarparwyr allanol
- Platfform cyfryngau cymdeithasol
- Darparwyr cyhoeddiadau neu argraffwyr sy'n ein cynorthwyo gyda chreu, cyhoeddi ac argraffu prosiectws yr ysgol.

Bydd ein proseswyr data ond yn dilyn ein cyfarwyddiadau ni oni bai ein bod ni yn ei hysbysu fel arall. Nid ydynt yn gallu defnyddio eich data personol mewn unrhyw ffordd arall. Gall ein Swyddog Diogelu Data ddarparu mwy o wybodaeth ar sut rydym yn sicrhau bod ein proseswyr data yn ymddwyn yn ôl cyfreithiau diogelu data.

7. PA MOR HIR BYDDWN YN CADW EICH DATA PERSONOL

Bydd cofnodion digwyddiadau ysgol a gweithgareddau yn cael eu hadolygu yn achlysurol gan gynnwys ffotograffau a recordiadau. Pan nad oes angen lluniau neu recordiadau at ddiben busnes neu ddiddordeb hanesyddol byddant yn cael eu dileu mewn modd diogel. Byddwn yn adolygu ein post cyfryngau cymdeithasol yn flynyddol ac yn dileu unrhyw bost sydd ddim ei angen bellach.

8. SUT RYDYM YN DIOGELU EICH DATA PERSONOL

Rydym wedi sefydlu mesurau diogelwch i sicrhau nad yw eich data personol yn cael ei golli yn ddamweiniol, ei ddefnyddio, cael mynediad ato, ei newid neu ei hysbysu mewn unrhyw ffordd heb awdurdod. Rydym yn cyfyngu'r mynediad at eich data personol i gyflogai sydd angen gwybod. Bydd ein cyflogai ond yn prosesu eich data personol dan ein cyfarwyddyd, ac mae ganddynt ddyletswydd i gadw cyfrinachedd.

Mae gennym weithdrefnau i ddelio gydag unrhyw achosion o ddiogelwch data yn cael ei dorri a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr o dor diogelwch data os oes angen cyfreithiol i ni wneud. Mae ein hysgol yn gweithio ochr yn ochr

gydag ein Swyddog Diogelu Data a Thîm Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Gallwch wybod mwy am sut rydym yn cadw eich data personol yn ddiogel trwy gysylltu â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae hawliau gennych dan gyfreithiau diogelu data am eich data personol sy'n cynnwys:

- Yr hawl i gywiriad
- Yr hawl i Gyfyngu prosesu
- Yr hawl i Wrthwynebu
- Yr hawl i Ddilead
- Yr hawl i Fynediad

Os ydych eisiau cyflwyno cais ar sail yr hawliau a nodir uchod, cysylltwch gyda'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn adran 2 yr hysbysiad hwn.

10. MANYLION PELLACH

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg os ydych yn anhapus gyda sut mae'r ysgol wedi defnyddio eich data personol. Rydym yn eich annog i gysylltu gyda'r ysgol yn y lle cyntaf, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyllo'r DU am faterion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), Yr 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill,
Rhodfa Churchill, Caerdydd, CF10 2HH
E-bost : wales@ico.org.uk
Rhif Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych yn chwilio am fwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data yn cynnwys diogelwch data, stori data a hawliau unigol cysylltwch gyda Thîm Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar y manylion a ddarparwyd yn Adran 2 yr hysbysiad hwn. Gallwch hefyd dderbyn gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar, www.ico.org.uk.